**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 13 Chwefror 2023 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | Y V Jardine | A J Jeffery |
| S M Jones | E T Kirchner | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Gwasanaethau Gofal |
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gymunedau |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen St John | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol, Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day; K M Griffiths; W G Lewis; C L Philpott
Hefyd yn Bresennol: A Pugh

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Chris Holley gysylltiad personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 4 Cynigion Drafft Cyllideb

Roedd y Cynghorwyr Louise Gibbard a Hayley Gwilliam, ynghyd â swyddogion perthnasol yn bresennol ac aethpwyd drwy'r cynigion cyllideb arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Thlodi a'i Atal, gan dynnu sylw at y prif faterion ac ateb cwestiynau.

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Calonogir y Panel gan y ffaith bod cynnydd yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023/24 ac mae'n croesawu'r ffordd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithredu gyda lefel uwch o effeithlonrwydd.
- Yn gyffredinol, mae'r Panel yn deall bod angen arbedion o £6 miliwn ond mae'n pryderu am y cynnydd o 10% mewn ffioedd a thaliadau ac effaith hyn ar y 25% o bobl yr effeithir arnynt gan y cynnydd, sydd eisoes dan bwysau ariannol.
- Mae'r Panel yn deall bod arbediad arfaethedig o £1 filiwn i'w godi o swyddi gwag ond mae'n pryderu y gallai hyn arwain at fwy o ddefnydd o staff asiantaeth a bydd yn monitro hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Mae'r Panel yn deall bod arbedion o £500,000 yn cael eu cynnig drwy leihau nifer y lleoliadau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac mae'n gobeithio bod modd cyflawni hyn yn yr hinsawdd bresennol.
- Mae gan y Panel ddiddordeb yn y syniad o gryfhau cydgynhyrchu sefydliadol ac mae'n cefnogi ymagwedd gyffredin.
- Nid yw effaith ailgomisiynu gwasanaethau'n cael ei deall yn llawn o ran y gyllideb a osodwyd a bydd yn rhaid ei monitro'n ofalus.

Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid yn bresennol yn y Cabinet ar 16 Chwefror i roi barn gyfunol y paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at yr aelod Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am